

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

**Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu  
gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Gorffennaf 12, 2022 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Llinos Williams, Elfed ap Gomer, Geraint Rowlands, Gareth Ellis ac Eleri Jones. Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Croesawyd Eleri Jones fel cynghorydd oedd yn ei chyfarfod cyntaf y Cyngor.

**1. Ymddiheuriadau:** Gwenan Owen.

**2. Dewis Swyddogion**

Cadeirydd: Simon Evans.  
Is Gadeirydd: Gareth Ellis.

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams  
Neuadd Bentref Bontddu (1): Gwenan Owen  
Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands ac Eleri Jones.  
Un Llais Cymru (2): Simon Evans a Gareth Ellis

**2. Datgan diddordeb:**

Roedd Llinos Williams yn datgan diddordeb ynglyn ag Eitem 8.b. 'Cais Cynllunio'.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 14, 2022**

Cynigwyd y cofnodion gan Elfed ap Gomer ac eilwyd gan Llinos Williams .

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Mehefin 14, 2022**

Nid oedd materion yn codi.

### **5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (24/6/2022) oddi wrth Llywodraeth Cymru angen i ni gwblhau ffurflen 'Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Cynghorau Cymuned a Thref – profforma ar gyfer y datganiad taliadau'. Roeddynt angen gwybod y taliadau rhoddwyd i'r aelodau am y flwyddyn ariannol Ebrill 2021 i Mawrth 2022.

Rhoddwyd gwybod iddynt (24/6/2022) ni chafodd yr aelodau taliadau. Anfonwyd y ffurflen i'r aelodau iddynt gael gwybod y wybodaeth oedd ei angen.

Rhoddwyd gwybod i Elfed ap Gomer rhoi'r ffurflen ar ein gwefan fel oedd ei angen.

b. Llythyr (29/6/2022) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein hodd o £400.

d. Balans yn y banc ar 29/6/2022: £10,273.99. (29/6/2021: £11,505.45).

### **6. Archwilio**

a. Rhoddwyd Hysbysiad archwilio (Cymraeg a Saesneg) ar ein gwefan ac ar ein hysbysfyrddau (27/6/2022) fel oedd ei angen.

b. Anfonwyd y dogfennau i Archwilio Cymru ar 28/6/2022.

### **7. Mynwent Llanelltyd**

a. Anfonwyd llythyr (9/7/2022) i Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae angen gwagio bin sbwriel ym mynwent Llanelltyd. Nid yw'r bin wedi ei wagio am rhai wythnosau ac mae hyn wedi creu ac yn creu llanast yn y fynwent.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

### **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/65/330C. Dymchwel y tŷ presennol ac adeiladu tŷ newydd, ac amnewid y tanc septic presennol gyda uned trîn carthion Newydd. Hafod Fach, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.(29/6/2022).

b. Cais cynllunio NP5/65/246B. Newid defnydd tir i ymestyn cwrtil domestig ac adeiladu garej a creu mynedfa newydd i gerbydau (Ail gyflwyniad). Pen y Dalar, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL - GORFFENNAF 12, 2022

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Parc bod dolen gyswllt i wefan y Parc yn glanio ar fersiwn Saesneg y wefan, er iddi gael ei chynnwys yn y cyfarwyddiadau Cymraeg. Dyma'r ddolen dan sylw:

'Dylwch ymweld a safle we'r Awdurdod ar [www.eryri.llyw.cymru](http://www.eryri.llyw.cymru) i edrych ar y dogfennau cyhoeddus hawlfraintiedig a gyflwynwyd gyda'r cais. Gellir eu gweld drwy ddewis "Cynllunio" ar y dudalen gartref. Dewisiwch "Cais Cynllunio" i ddarganfod yr opsiynau sydd ar gael.'

Gofynnwyd iddynt edrych i mewn i'r mater. (Hefyd, mae angen newid y gair 'dylwch' i 'dylech'.)

## **9. Gohebiaeth**

a. Cafwyd gwybod (17/6/2022) gan Gwenan Owen bod Llinos W. Rowlands, Nant Fach, Ty'n Twll, Bontddu yn dymuno bod yn gynghorydd ar y Cyngor.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Llinos W. Rowlands ei bod wedi chael ei ethol yn gynghorydd i'r Cyngor.

b. Llythyr (20/6/2022) oddi wrth yr Uned Rheolwr Trafnidiaeth, Cyngor Gwynedd yn holi os mae yr hen loches o ddefnydd i ni, neu iddynt ei ail-gylchu yn rhywle arall. Gweler Cofnodion Mai 10, 2022 lle mae'r Uned yn rhoi lloches bws newydd wrth Pont Wnin, Lanelltyd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (22/6/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd am 7.00yh ar ddydd Mercher, Mehefin 29. Bydd y cyfarfod ar Zoom (mae'r llythyr yn cynnwys y linc). Y siaradwr fydd Huw Antur o Gyngor Llanuwchllyn yn siarad am greu Cynllun Ardal Llanuwchllyn.

Amgáu mae Agenda i Cyfarfod Blynyddol ac Agenda i Cyfarfod Cyffredinol. Amgáu hefyd mae cofnodion Cyfarfod Cyffredin Pwyllgor Ardal Meirionnydd a gynhaliwyd ar nos Fercher 9 Mawrth 2022 gan ddefnyddio ZOOM.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (27/6/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Mehefin a Gorffennaf.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL - GORFFENNAF 12, 2022

d. Llythyr (27/6/2022) oddi wrth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth am ddrafft maent wedi paratoi 'Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'. Maent angen sylwadau gan Cynghorau Cymuned / Tref a'r cyhoedd trwy lenwi holiadur ar wefan y Cyngor neu ar bapur. Mae'r ymgynghoriad ar agor tan Medi 12, 2022

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (4/7/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Gweithdai Ardal Ni 2035 (Dolgellau, Llanelltyd, Ganllwyd, Mawddwy, Brithdir, Llanfachreth, Rhydymain, Arthog, Corris). I barhau gyda'u prosiect i adnabod beth sy'n bwysig i'r trigolion lleol, maent angen dau gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i fod yn bresennol yn eu gweithdai bydd yn cymryd lle ym mis Medi. Maent angen yr enwau erbyn Awst 8, 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi enwau Seimon Evans a Geraint Rowlands ymlaen i gynrychioli'r Cyngor.

### **10. Adroddiad Cynghorydd Gwynedd Mrs Delyth Lloyd Griffiths**

a. Mae golau melyn ar ddwy ochr i'r ysgol yn gweithio ac wedi gwneud gwahaniaeth i arafu cerbydau. Mae Cyngor Gwynedd am asesu'r ffordd.

b. Mae Ysgol Bontddu dim mwyach ym meddiant Cyngor Gwynedd.

c. Mae cwmni Seashells am gynorthwyo Cyngor Gwynedd i roi gwasanaeth gofal i'r henoed yr ardal yn eu cartrefi. Yr anfantais gyda'r drefn yw prinder gweithwyr sy'n siarad Cymraeg.

ch. Mae'n debygol bydd cyfarfod agored yn cael ei gynnal gan Gwmni Alba Mineral Resources ym mis Medi.

### **11. Materion Brys**

a. Mae'r fainc yn y lloches fws ger Bro Cymer angen triniaeth oherwydd mae wedi rhydu a hynny ers blynyddoedd.

Anfonwyd y lluniau i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Uned Trafnidiaeth Integredi a Diogelwch Ffyrdd, Cyngor Gwynedd i ystyrio newid y lloches fws ger Bro Cymer gydag un newydd yn cynnwys Sgrin Gwybodaeth Bysiau pan fydd sefyllfa yn caniatáu.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION **CYFARFOD BLYNYDDOL** - GORFFENNAF 12, 2022

- b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:
1. torri y gordyfiant sydd ar hyd ochrau'r ffordd Cwm Mynach
  2. rhoi sylw i ganllawiau Pont Cwm Mynach oherwydd mae'r cerrig yn rhydd.
  3. cael gwybod pwy sy'n gwneud y gwaith arwyneb y ffordd wrth Hafod y Brenin (Shooting Box), Cwm Mynach. Mae barn mwy angen gwneud gwaith yn llefydd eraill na gwario ar waith wrth Hafod y Brenin.
  4. torri'r coed sy'n tyfu ar ochr yr hen bont bwa Llanelltyd. Mae hwn yn hen gŵyn.

-----